OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1268 (Cy.115)

PRIFFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*19 Mai 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*22 Ebrill 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Mehefin 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 74, 97 a 104(1) a (3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**), ac a drosglwyddwyd ar ôl hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009. Deuant i rym ar 1 Mehefin 2009 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adeg sydd yn sensitif i draffig" ("*traffic-sensitive time*"), o ran stryd sydd yn sensitif i draffig, yw—

(a) yr amseroedd neu'r dyddiadau sydd wedi eu pennu yn achos dynodiad cyfyngedig; a

(b) unrhyw adeg mewn unrhyw achos arall;

ystyr "Awdurdod Trwyddedau" ("*Permit Authority*") yw—

(a) awdurdod priffyrdd lleol y gwnaed gorchymyn mewn perthynas ag ef o dan adran 34(4) o Ddeddf 2004; neu

(**1**) 1991 p.22. Cafodd adran 74 ei diwygio gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p.38), adran 256, Atodlen 31, Rhan V, a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adrannau 40(4) a 52.

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 74, 97 a 104 wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru, cyn belled ag y bônt yn arferadwy o ran Cymru. Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2, Atodlen 1. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), cawsant eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(b) Gweinidogion Cymru, fel awdurdod priffyrdd, y gwnaed gorchymyn mewn perthynas â hwy o dan adran 35(2) o'r Ddeddf honno,

sydd yn gweithredu cynllun trwyddedau;

ystyr "categori ffordd" ("*road category*") yw un o'r categorïau ffordd a bennir ym mharagraff 1.3.1 o Bennod S1 o'r cod ymarfer sy'n dwyn y teitl "Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd", sy'n ddyddiedig Tachwedd 2006(**3**) ac a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ar 7 Tachwedd 2006, fel y mae wedi ei ddiwygio neu ei ailgyhoeddi o bryd i'w gilydd;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**4**);

ystyr "cyfeiriad" ("*address*"), mewn perthynas â dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig, yw unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion dull trosglwyddo o'r fath;

ystyr "cyfnod rhagnodedig" ("*prescribed period*") yw'r cyfnod a ragnodir gan reoliad 6;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**5**);

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004(**6**);

ystyr "diwrnod" ("*day*") yw diwrnod gwaith;

ystyr "dynodiad cyfyngedig" ("*limited designation*") yw dynodiad yn unol â rheoliad 16(3) o Reoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008(**7**), ar gyfer amseroedd penodol neu ar ddyddiadau penodol;

ystyr "echel safonol" ("*standard axle*") yw echel sy'n rhoi grym o 80 cilo Newton;

ystyr "y Fanyleb Dechnegol" ("*the Technical Specification*") yw'r Fanyleb Dechnegol ar gyfer Trosglwyddiad Electronig o Hysbysiadau a gynhyrchwyd gan yr Adran Drafnidiaeth ac sy'n ddyddiedig Rhagfyr 2008, fel y caiff ei diwygio neu ei hailgyhoeddi o bryd i'w gilydd;(**8**)

ystyr "gorchymyn cynllunio ar gyfer cerddwyr" ("*pedestrian planning order*") yw gorchymyn a wnaed o dan adran 249(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**9**);

ystyr "gorchymyn traffig" ("*traffic order*") yw gorchymyn a wnaed o dan adran 1 neu 9 o Ddeddf 1984;

mae "gwaith adfer" ("*remedial works*") yn waith a gyflawnir o dan adran 72(3) o Ddeddf 1991;

mae "gwaith brys" ("*urgent works*")—

(a) yn golygu gwaith stryd, ar wahân i waith argyfwng, y mae gofyn ei gyflawni ar yr adeg y caiff ei gyflawni (neu y mae'r sawl sy'n gyfrifol am y gwaith yn credu ar sail resymol fod gofyn hynny)—

(i) er mwyn atal neu roi terfyn ar doriad anghynlluniedig ar unrhyw gyflenwad neu wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan ymgymerydd;

(**3**) Ar gael yn http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/highwwales/2006/SpecificationReinstatementHighwa?lang=cy

(**4**) 2000 p.7. Cafodd Adran 15(1) ei diwygio gan Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21), adran 406(1) ac Atodlen 17, paragraff 158.

(**5**) 1984 p.27. Cafodd adrannau 1, 6 a 9 eu diwygio gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17, 21 a 23, a'u haddasu gan Reoliadau Tramiau a Cherbydau Troli (Addasu Deddfiadau) 1992 (O.S. 1992/1217) ("y Rheoliadau Tramiau"). Cafodd adrannau 1 a 6 eu diwygio'n ogystal gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 120 ac Atodlen 22, paragraff 36. Cafodd adran 1 ei diwygio'n ogystal gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, adran 161 ac Atodlen 11, paragraffau 6 a 7.. Cafodd adrannau 6 a 9 eu diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), adran 8 ac Atodlen 5, paragraff 4, a chafodd adran 9 ei diwygio'n ogystal gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.27), adran 48 ac Atodlen 4, paragraff 24. Cafodd adran 14 ei hamnewid gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1 a'i haddasu gan y Rheoliadau Tramiau.

(**6**) 2004 p.18.

(**7**) O.S. 2008/540 (Cy.52).

(**8**) Mae hon ar gael o www.dft.gov.uk.

(**9**) 1990 p.8. Cafodd adran 249(2) ei diwygio gan Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29), adran 270, Atodlen 22, paragraff 5.

(ii) er mwyn osgoi colled sylweddol i ymgymerydd mewn perthynas â gwasanaeth presennol; neu

(iii) er mwyn ailgysylltu cyflenwadau neu wasanaethau pan fyddai gan ymgymerydd atebolrwydd sifil neu droseddol pe bai'r ailgysylltu'n cael ei ohirio tan ar ôl i'r cyfnod hysbysiad priodol ddod i ben; a

(b) yn cynnwys gwaith na ellir ei wahanu'n rhesymol oddi wrth waith o'r fath.

ystyr "gwaith di-oed" ("*immediate works*") yw gwaith brys neu waith argyfwng(**10**);

ystyr "gwaith mawr" ("*major works*") yw—

(a) gwaith stryd sydd wedi ei nodi yn rhaglen weithredu flynyddol ymgymerydd, neu a fuasai fel rheol yn gynlluniedig ac yn hysbys o leiaf chwe mis cyn dyddiad arfaethedig y gwaith, er nad oedd wedi ei nodi'n benodol mewn rhaglen o'r fath;

(b) gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed—

(i) pan fo'r awdurdod strydoedd wedi dangos i ymgymerydd, neu

(ii) pan fo'r ymgymerydd o'r farn,

fod gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf 1984 (gwaharddiad dros dro neu gyfyngiad ar ffyrdd) yn angenrheidiol; neu

(c) gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed, y mae ei hyd arfaethedig yn fwy na deng niwrnod;

ystyr "gwaith safonol" ("*standard works*"), ac eithrio fel y darperir yn rheoliad 8(8), yw gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed neu waith mawr, y mae ei hyd arfaethedig yn fwy na thri diwrnod ond yn ddim mwy na deng niwrnod;

mae i "llwybr ceffylau", "llwybr troed" a "troedffordd" yr ystyron a roddir i "bridleway", "footpath" a "footway" yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(**11**);

ystyr "mân waith" ("*minor works*"), ac eithrio fel y darperir yn rheoliad 8(8), yw gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed neu waith mawr, y mae ei hyd arfaethedig yn ddim mwy na thri diwrnod;

ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992(**12**);

ystyr "stryd sydd yn sensitif i draffig" ("*traffic-sensitive street*") yw stryd sydd wedi ei dynodi'n un sensitif i draffig o dan adran 64 o Ddeddf 1991;

mae "trwydded" ("*permit*") a "cynllun trwyddedau" ("*permit scheme*") i gael eu dehongli yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2004; ac

ystyr "ymgymerydd statudol" ("*statutory undertaker*") yw person sydd â'r hawl, yn rhinwedd hawl statudol, i gyflawni gwaith stryd.

Trefniadau trosiannol

3. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i waith stryd yng Nghymru pan fo ymgymerydd wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 54(1), 55(1) neu 57 o Ddeddf 1991 cyn y dyddiad y deuant i rym(**13**).

(**10**) *Gweler* adran 52 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) am y diffiniad o "waith argyfwng" ("emergency works").

(**11**) 1980 p.66.

(**12**) O.S.1992/2985; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/990 a 2128 a 1999/1049. Cafodd Rheoliadau 1992 eu datgymhwyso o ran Cymru gan Reoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (O.S. 2008/540 (Cy.52)), rheoliad 2, yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol sydd wedi eu cynnwys yn rheoliad 19.

(**13**) Cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, mae darpariaethau Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) (O.S. 2008/540) yn gymwys.

Cymhwyso'r Rheoliadau

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bob priffordd y gellir ei chynnal, ar wahân i lwybr troed, llwybr ceffylau, priffordd y mae gorchymyn cynllunio ar gyfer cerddwyr mewn grym mewn perthynas â hi, a phriffordd y mae gorchymyn traffig yn gwahardd defnydd ohoni gan draffig cerbydol, oni bai bod y gwaharddiad mewn grym ar adegau penodol yn unig.

Hysbysiadau

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o gychwyniad y gwaith hwnnw i'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd honno, gan nodi'r stryd y mae'r gwaith i'w gyflawni ynddi ("hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith"), ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cychwynnir y gwaith.

(2) Pan fo gwaith yn cael ei gyflawni o dan drwydded sydd wedi ei chaniatáu gan Awdurdod Trwyddedau mewn stryd sydd yn sensitif i draffig neu mewn stryd yng nghategori ffordd 0, 1 neu 2 nad yw'n stryd sydd yn sensitif i draffig, y cyfnod y mae'n rhaid i'r hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith gael ei gyflwyno oddi mewn iddo yn unol â pharagraff (1) fydd y cyfnod sy'n gymwys yn rhinwedd paragraff 16.7 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Trwyddedau dyddiedig Mehefin 2009.(**14**), fel y caiff ei ddiwygio neu ei ailgyhoeddi o bryd i'w gilydd.

(3) Pan fydd ymgymerydd—

(a) wedi cwblhau adferiad dros dro o briffordd;

(b) wedi symud ymaith—

(i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a

(ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac

(c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus,

rhaid i'r ymgymerydd hwnnw hysbysu'r awdurdod priffyrdd fod hyn wedi ei wneud ("hysbysiad o fod yn glir o waith") ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cafodd y briffordd ei hadfer yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

(4) Pan fydd ymgymerydd—

(a) wedi cwblhau adferiad parhaol o briffordd;

(b) wedi symud ymaith—

(i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a

(ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac

(c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus,

rhaid i'r ymgymerydd hwnnw hysbysu'r awdurdod priffyrdd fod hyn wedi ei wneud ("hysbysiad o gwblhau gwaith") ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cafodd y briffordd ei dychwelyd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

Cyfnod rhagnodedig

6. Mewn perthynas ag ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi, bydd y cyfnod rhagnodedig o dan adran 74(1)(a) o Ddeddf 1991 yn ddau ddiwrnod, gan gychwyn ar y dyddiad y bydd y gwaith yn cychwyn.

(**14**) Cyfeiriad y wefan i ddilyn.

Hyd y gwaith

7. At ddibenion y Rheoliadau hyn, ni fydd hyd gwaith stryd ond yn dod i ben pan fydd yr ymgymerydd—

(a) wedi cwblhau adferiad dros dro, neu adferiad parhaol yn ôl y digwydd, o briffordd;

(b) wedi symud ymaith—

(i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a

(ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac

(c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

Taliadau rhagnodedig

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (12) a (13), rhaid i ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi dalu i'r awdurdod priffyrdd swm sydd i'w bennu yn unol â pharagraffau (3) i (11).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) gwaith—

(i) mewn stryd nad yw'n sensitif i draffig,

(ii) ar droedffordd stryd sydd yn sensitif i draffig ar adeg sydd yn sensitif i draffig, neu

(iii) mewn stryd sydd yn sensitif i draffig, ac eithrio ar adeg sydd yn sensitif i draffig,

os nad yw'r gwaith yn golygu dryllio'r stryd neu dwnelu neu dyllu oddi tani;

(b) gwaith sy'n cynnwys dim ond creu tyllau sy'n llai na 3 centimetr ar eu traws, at ddibenion ymchwiliol;

(c) ailosod polion, colofnau lamp neu arwyddion yn yr un lleoliad; neu

(ch) rhoi prawf ar bolion.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (9), bydd y taliad yn swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (4), a bydd yn daladwy am bob diwrnod, neu ran o ddiwrnod, y mae hyd y gwaith yn mynd yn fwy na'r hwyaf o—

(a) y cyfnod rhagnodedig, neu

(b) cyfnod rhesymol(**15**).

(4) O ran gwaith stryd sydd mewn categori a restrir yng ngholofn 3 o Dabl 1, ac sy'n cael ei gyflawni mewn stryd o fath a ddisgrifir yng ngholofn 2 o ran y categori hwnnw, swm y taliad fydd y swm sydd wedi ei nodi yng ngholofn 4.

Tabl 1

1. *Rhif yr Eitem*	*2.* *Disgrifiad o stryd.*	*3.* *Categori o waith stryd.*	*4.* *Swm y taliad (£).*
1.	Stryd nad yw'n stryd yng nghategori ffordd 2, 3 neu 4.	Gwaith mawr	2,500
		Gwaith safonol	2,500
		Mân waith	500

(**15**) Dylid dehongli "cyfnod rhesymol" yn unol ag adran 74(2) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22).